

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
21/02/2022

Presennol: Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Cyngorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd yr aelodau a derbyniwyd ymddiheuriadau Tyly Roberts a W D Williams. Cydymdeimlwyd gyda Dafydd Williams yn ei brofedigaeth ddiweddar.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Ar ôl ychwanegu enw Emyr Jones at enwau'r sawl a oedd yn bresennol, cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 17/1/2022 ac Is-bwyllgor Cyllid 17/1/2022.

5. Materion y Clerc

- i. Diolchwyd am yr offer a gyfrannwyd gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Bydd rhain yn cael eu hychwanegu at restr asedau'r Cyngor.

- ii. Eglwys Santes Gwawr:

Giât y Fynwent: holwyd am brisiau trwsio, a holir ymhellach eto

Yr Eglwys: Deellir bod adeilad yr eglwys wedi ei werthu.

Perchnogaeth: Adeg dad-sefydlu'r Eglwys yng Nghymru trosglwyddwyd y fynwent trwy orchymyn, dyddiedig 8/9/1925, i Gyngor Plwy Llangywer. Mae gorchymyn 1925 yn cael ei gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Cytunwyd i dalu am gofrestru tir y fynwent ac unrhyw gostau yn ymwneud a hynny.

Holwyd Un Llais Cymru a'r Eglwys yng Nghymru am hawliau tyllu mewn mynwent.

Cytunwyd i uwchraddio Polisi a ffioedd y fynwent i gyd-fynd a Mynwent Llanuwchllyn.

Cytunwyd i barhau i gadw'r ychwanegiad y cyfyngir claddedigaethau i breswylwyr neu i bobl sydd â chysylltiad agos iawn gyda Llangywer.

Nodwyd y cafodd y Clerc ymholiad gan swyddog o'r Eglwys parthed perchnogaeth a chyfrifoldeb dros mynwentydd Penllyn.

- iii. Mynwent Rhosygwaliau: holir ymhellach a oes gan y Cyngor gyfrifoldeb dros rhan o'r fynwent; ystyrir y gall fod yn hafan i fywyd gwyllt.

- iv. Cytunodd y Cyngorydd Alan Jones Evans i gysylltu gyda swyddogion Cyngor Gwynedd parthed tocio gordyfiant wrth bont Rhosygwaliau; gobeithir manteisio ar y trefniant

pan fydd Cyngor Gwynedd yn torri gordyfiant ar ffordd Cwm Hirnant ar gyfer BT. Bydd rhan o ffordd Llangywer ar gau am gyfnod mis nesaf pan fydd tocio coed ar gyfer BT wrth Plan Onn.

- v. Nid oedd gwrthwynebiad i gais maes carafanau Pantyrannen i hysbysu fod angen i gwn fod ar dennyn wrth fynd am dro trwy'r gwersyll.
 - vi. Cyflwyniad i Gynllun Ardal Llanuwchllyn – gohiriwyd tan ar ôl yr etholiadau ym Mai.
 - vii. Etholiadau Mai 2022: eglurodd y Clerc y drefn.
 - viii. Deddf Newydd 2021 ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru – rhoddodd y Clerc arweiniad ar gynnwys hwn.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad Cyngorydd Alan Jones Evans a soniodd am gynlluniau amrywiol Cyngor Gwynedd i geisio ofalu am gartrefi i bobl leol. Dywedodd hefyd fod sefydlu trefn i ddarparu biniau halen ac halen bron wedi gorffen. Soniodd fod cyllideb eleni ar gyfer trwsio darnau o'r ffyrdd wedi ei wario erbyn hyn Mae'n debyg na fydd holl adroddiadau'r Asiantaethau ar gais cynllunio Rheilffordd Llyn Tegid yn dod i law am gyfnod eto. Canmolodd y gweithlu am ymateb ar unwaith yn dilyn y stormydd diweddar; bydd yn holi am ysgubo'r ffyrdd.
7. **Materion Lleol y Cyngorwyr:** yn dilyn ymholiadau gan rai trigolion, cafwyd trafodaeth ar mast telegyfathrebu 4G a fwriedir ei osod yng Nghwm Hirnant. Roedd yr aelodau'n parhau o'r farn y bydd hwn yn llesol ar gyfer cyfathrebu gyda'r gwasanaethau argyfwng, ac ar gyfer gwella derbyniad ffonau symudol a'r band lydan. Astudiwyd y mapiau ac roedd bodlonrwydd fod rhan fwyaf o'r mast o'r golwg yn y goedwig ac nad oedd yn agos i anheddau.
8. **Partneriaeth Penllyn:** Nid oedd adroddiad gan gynrychiolwyr Partneriaeth Penllyn y tro hwn.
9. Derbyniwyd adroddiad y Clerc o gyfarfod Cyngor Gwynedd / Parc Cenedlaethol Eryri.
- 10. Materion ariannol:**
- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol. Cytunwyd gyda newidiadau i'r Rheolau Ariannol er mwyn cynnwys y defnydd o fancio ar lein.
 - ii. Ystyriwyd Cyfraniadau Cymunedol a chytunwyd fel a ganlyn:

a. Neuadd Bentref Llangywer	£675
b. Cantref, Y Plase	£50
c. Cffl Meirionnydd	£250
ch. Theatr Bara Caws	£25
11. Nid oedd ceisiadau cynllunio.
12. **Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf:** Trefnwyd cyfarfod byr ychwanegol ar 28 Mawrth, am 8.00pm